# Papur

## Elim, Heol Awst a'r Priordy

Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin



**WRTH Y PRESEB PLYGWN NINNAU
O DAN WAWL Y SEREN OLAU;
GWRANDO IESU AR WEDDÏAU
PAWB O BLANT YN BYD I GYD.**

**Aneurin Jenkins-Jones (1925-1981)**

***Gweler erthygl Peter Hughes Griffiths y tu mewn***



**Rhifyn 15**

**PAPUR RHAGFYR 2025**

# GAIR GAN EIN GWEINIDOG

## ‘Ond roedd y nef yn gwybod…’

**Mair a Joseff – cwpl blinedig, stabl fenthyg, baban wedi ei osod mewn preseb.**



**Nid oedd dim yn ymddangos yn arbennig. Ond roedd y nef yn gwybod yr hyn na wyddai’r byd: fod y goleuni lleiaf yn gallu newid y noson dywyllaf.**

**Nadolig yw ymateb Duw i fyd wedi torri.**
**Nid â nerth, ond â phresenoldeb.**
**Nid â grym, ond â ffyddlondeb.**
**Nid â chondemniad, ond â thosturi.**

**Daw Iesu atom nid yn unig fel ffigwr hanesyddol, ond fel Duw’r Emaniwel, Duw-gyda-ni yn ein hamheuon, ein siomedigaethau, ein hofnau a’n gobeithion. Daeth Duw i’n byd yn y baban er mwyn rhannu ein profiadau ni fel nad oes yr un ohonom yn cerdded trwy’r bywyd hwn ar ei ben ei hun.**

**Heno, mae goleuni Crist yn disgleirio ar gyfer:**

- **Y rhai sy’n llawen – fel y bydd eu llawenydd yn gyflawn ac yn cael ei rannu.**
- **Y rhai sy’n galaru – fel y teimlant gysur yr Un sy’n nesáu at y galon.**
- **Y rhai sy’n teimlo’n bell oddi wrth Dduw – fel y gwyddant fod drws y preseb bob amser ar agor.**
- **Y rhai sy’n flinedig – fel y deuant o hyd i orffwys gyda’r Un sy’n dweud ‘Dewch ataf fi.’**

**Nid stori yn unig i’w chofio ydy’r Nadolig; mae’n rhodd i’w derbyn.**

**Ac mae rhoddion i’w rhannu.**

**Sut fyddwn ni’n rhannu goleuni Crist i’r byd y tymor hwn?**

**Efallai y bydd yn dechrau gyda gweithred fach o garedigrwydd.
Gair o anogaeth.
Gweddi dros rywun sydd angen nerth.
Eiliad o wrando mewn byd swnllyd.
Dewis maddau, hyd yn oed pan mae'n anodd.**



**Mae'r goleuni a ddisgleiriodd ym Methlehem yn dal i ddisgleirio heddiw—trwy bobl sy'n mentro caru fel y carodd Iesu.**


**Wrth i ni ddathlu eleni, bydded i oleuni Crist oleuo pob cornel dywyll o'n calonnau,gan ddod â thangnefedd ble mae anghydfod, gobaith ble mae anobaith, a dewrder ble mae ofn.**

**A bydded i ni, fel y bugeiliaid adael yr Ŵyl eleni yn moli Duw ac yn cario'r newyddion da ble bynnag yr awn.**

**Nadolig Llawen, a Thangnefedd Crist fyddo gyda chi i gyd.**



## Gweddi i gyfrif i lawr i'r Nadolig



**Gweddïwn**

**Pump**: llaw gyflawn yn cynrychioli'r holl fyd.
Diolchwch am gariad Duw i'r holl fyd;
Gweddïwch am unrhyw wledydd penodol sydd yn y newyddion;
gweddïwch y bydd y Newyddion Da o heddwch yn cael ei glywed ymhob man.
Arglwydd, yn dy drugaredd. Clyw ein gweddi.

**Pedwar**: yn cynrychioli'r bugeiliaid a phawb sy'n gweithio neu'n byw ar gyrion cymdeithas.
Gweddïwch dros y rhai sy'n gweithio ar Ddydd Nadolig,
y rhai heb unman i fynd, y rhai sy'n cael eu casáu a'u dilorni gan eraill;
gweddïwch y byddan nhw'n canfod realiti cariad Duw.
Arglwydd, yn dy drugaredd. Clyw ein weddi.

**Tri**: yn cynrychioli'r Tri Gŵr Doeth a phawb sydd â grym a dylanwad.
Gweddïwch dros arweinwyr yr eglwysi a'r wlad, y byddan nhw'n parhau
i geisio gwirionedd a chyfiawnder i bawb.
Arglwydd, yn dy drugaredd. Clyw ein gweddi.

**Dau**: yn cynrychioli Mair a Joseff a rhieni a'r teulu.
Diolchwch am deulu a ffrindiau, ymhell ac agos.
Gweddïwch am anghenion penodol yn lleol,
ac yn enwedig dros deuluoedd agored i niwed,
y byddan nhw'n canfod llawenydd ar y dydd hwn.
Arglwydd, yn dy drugaredd. Clyw ein gweddi.

**Un**: yn cynrychioli Iesu, yr un a ddaeth i'n plith gan gynnig gobaith ac achubiaeth.
Gweddïwch dros yr eglwys sy'n dathlu ym mhedwar ban byd y tymor hwn,
dros ein heglwys ni, a thros ein bywydau unigol wrth i ni ei addoli a'i wasanaethu bob dydd.
Drwy Iesu Grist,

**Amen**

https://www.stpadarns.ac.uk/cy/ministry/continuing-ministerial-development/life-events-ministry/prayer-count-down-christmas/

# DARLLENIADUR

| Mis Rhagfyr | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1- Adfent 2 | Eseia 11: 1-10 |
| Wythnos 2- Adfent 3 | Eseia 35: 1-10 |
| Wythnos 3 – Adfent 4 | Mathew 1: 18-25 |
| Wythnos 4 – Bore Nadolig | Luc 2: 1-7 |

## DIOLCH YN FAWR

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**ROY JAMES**
**BETSAN JAMES**
**NIA EVANS**
**MARY EVANS**
**ANN A BRIAN WALTERS**
**RHODD ER COF AM ELUNED MADDOX**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?
Cyswllt
PHILIP JONES
Trysorydd
☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:

'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds
30-91-68
Acc no: 00229403

neu osod cyfraniad mewn amlen a'i dychwelyd i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei rhoi yn y blwch casglu.

# DERBYN AELODAU NEWYDD YN Y PRIORDY




***Cefn*: Anna Jones ac Osian Hayes gyda'n Gweinidog. *Blaen*: Tomos Morgans, Gwenan Jones a Marged Jones**

**Sulwyn Thomas**
**Y Priordy**

**Mae Sulwyn Thomas wedi ymddeol o agor a pharatoi'r capel a bod wrth y drws ers blynyddoedd maith. Mawr yw'n diolch iddo. Gofalwr y mis fydd yn gyfrifol am y gwaith hwn o hyn ymlaen.**

**Mary Williams**
**Elim**

**Mae aelodau Elim yn hynod o ddiolchgar i Mary Williams am gofnodi holl fanylion y beddau ym mynwent Elim a chyflwyo'i gwaith ymchwil i'r eglwys. Dyma gymwynas fawr ar ei rhan ni fel aelodau. Mae'r ffeiliau hyn yn adnodd ardderchog i ddiogelu'r hanes i'r dyfodol. Rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddigideiddio ei gwaith. Diolch yn fawr iawn.**

**Meleri Llwyd O'Leary**



## Oedfa Deulu yn y Priordy
## Bore Sul 2 Tachwedd 2025

***BRAF*** oedd gweld y capel yn fwrlwm ar fore Sul cyntaf mis Tachwedd. Oedfa deulu arbennig oedd hon i ddathlu derbyn pump aelod newydd yn yr eglwys. Fe groesawodd Beti-Wyn bawb i'r oedfa a chanwyd yr emyn gynulleidfaol 'Y mae i'n Waredwr' (rhif 416), i gyfeiliant bywiog Band y Priordy. Croesawyd ein Gweinidog nôl o'i thaith i Wlad Thai a diolchwyd i bawb a fu'n helpu gyda'r oedfaon tra oedd i ffwrdd. Fe wnaethpwyd y cyhoeddiadau ac fe fuodd Greta, Cadi, Martha Nel ac Osian yn gwneud y casgliad.

Wedi'r ail emyn sef 'Hedd sy'n llifo' (rhif 281), daeth Carys Morgans i'r pulpud i sôn am Iesu a'i ddisgyblion, gan bwysleisio mai pobl normal a chyffredin oeddent, wedi eu dewis yn arbennig gan Dduw i rannu Ei newyddion da. Yna daeth Tim Hayes i ofyn i ni pwy yn union oedd disgyblion Iesu. Wedi iddo enwi pob un ohonynt atgoffodd ni mai cyfeillion i Iesu oedd pob un, nid dim ond disgyblion. Yna daeth Mwynwen Jones i rannu'r neges bod Iesu wedi gofyn i'w ddisgyblion i garu ei gilydd fel yr oedd Ef yn eu caru hwy. Y cariad mwya y gall unrhyw un ei ddangos ydy bod yn fodlon marw dros ei ffrindiau.



Yn dilyn hyn fe gawsom gyfle i fwynhau cân Ryan Davies 'Os wyt ti'n ffrind i'r Iesu' mewn ffilm ar y sgrîn. Yna daeth Myfanwy Jones i'n harwain mewn gweddi. Gweddi i ddiolch am y rhodd o gyfeillgarwch ac am y llawenydd, y gefnogaeth a'r anogaeth y mae ffrindiau yn eu rhoi i ni. Yn dilyn y weddi daeth plant yr Ysgol Sul i'r blaen i ganu cân hyfryd 'Cofia bob amser' ac fe ganwyd emyn cynulleidfaol 'O'r fath gyfaill' (rhif 345).

Yn ei neges i blant yr Ysgol Sul, soniodd ei Gweinidog am ei thaith ddiweddar i wlad Thai, taith 12 mil o filltiroedd - 16 awr mewn awyren. Roedd cynrychiolwyr o 200 o gapeli o bob cwr o'r byd wedi ymgynnull i fod yn rhan o gynhadledd y WCRC ac fe gafwyd croeso mawr. Mynychodd Beti-Wyn wasanaeth yn un o gapeli'r ardal ac yn ystod yr oedfa fe'i gwahoddwyd i fynd i sefyll o flaen y gynulleidfa. Cyflwynodd y gweinidog rodd iddi ac fe osododd sgarff liwgar dros ei hysgwyddau

yn arwydd ei fod yn ffrind iddi. Yn ystod y gynhadledd rhoddwyd anrheg o fag lliwgar coch a siaced arbennig i Beti-Wyn, eto fel arwydd o gyfeillgarwch. Gofynnodd Beti-Wyn i'r plant beth allwn ei wneud i ddangos ein bod yn ffrind da? Cafwyd ymateb gwych, gyda'r plant yn dweud ei bod hi'n bwysig siarad â'n ffrindiau a bod yn garedig iddynt, gwrando arnynt, chwarae gyda nhw a rhannu pethau gyda nhw. Mae Iesu yn gyfaill i bob un ohonom ac yn yr un modd mae Duw am i ni fod yn ffrind i Iesu hefyd. Aeth Beti-Wyn ymlaen i ddweud bod eliffantod ymhobman yng Ngwlad Thai ac fe ddangosodd iddynt eliffant bach lliwgar wedi ei wneud o ddefnydd yn hongian ar fachyn allwedd. Cyflwynodd eliffant bach i bob un o blant yr Ysgol Sul fel arwydd o'i chyfeillgarwch tuag atynt. Roedd y plant wrth eu bodd yn derbyn yr eliffantod bach. Dywedodd wrthynt am gofio, bob tro y byddant yn edrych ar yr eliffant bach, ei bod hi'n ffrind i bob un ohonynt, i gofio bod angen iddynt hwy fod yn ffrindiau i'w gilydd ac i gofio bod yn ffrind i Iesu Grist.

Cydganwyd emyn rhif 767 'Cymer Arglwydd' ac yna fe fu'r gynulleidfa yn dyst i dderbyn pump o bobl ifanc y Priordy yn aelodau cyflawn o'r eglwys. Cafodd Tomos Morgans, Osian Hayes, Marged Jones, Anna Jones a Gwenan Jones eu cyflwyno i deulu'r ffydd. Cyflwynodd Catrin Heledd, Ysgrifennydd yr Eglwys, dystysgrif aelodaeth i bob un ohonynt. Llawenydd i bawb oedd eu gweld yn cadarnhau eu ffydd yn yr Arglwydd Iesu. Llongyfarchiadau gwresog i'r pump. Fe weinyddwyd y Cymun ac fe ddaeth yr oedfa i ben drwy gydganu emyn rhif 627 'Fe chwythodd yr awel' a'r fendith.



***DIOLCH*** i Beti-Wyn, Band y Priordy ac i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth. Cafwyd oedfa fendithiol ac arbennig iawn.

**CWLWM MONDULI CYSWLLT CAERFYRDDIN – TANSANIA**

**Dydd Sadwrn 13 Rhagfyr 2025 - 10.30-12.00**
**Capel Wesle Caerfyrddin**
**Ffair Nadolig - Carolau Nadolig - Raffl**





***Caerfyrddin a Gorllewin Cymru'n cefnogi prosiectau bychain cymunedol***

# OEDFA DEULU Y PRIORDY






**Peter Hughes Griffiths yn cofio…**



**Aneurin Jenkins-Jones**
**6 Ionawr 1925 – 16 Ebrill 1981**

***ELENI***, mae'n ganmlwyddiant geni'r addysgwr, yr offeiriad a'r llenor Aneurin Jenkins-Jones. Mae llawer ohonom yn ei gofio'n dda, gan iddo fod mor adnabyddus a gweithgar yma yng Nghaerfyrddin ac ar draws Cymru.

Brodor o Lanfair Clydogau, nepell o Lanbedr Pont Steffan, oedd Aneurin, ac fe gafodd ei addysg fore yn yr ysgol gynradd leol ac yna yn Ysgol Sir Tregaron, gan ennill gwobrau lawer am adrodd a chyfansoddi barddoniaeth a rhyddiaith yno.



Ar ôl blwyddyn fel myfyriwr yng Ngholeg Dewi Sant, Llambed, gorfodwyd ef i wneud 'gwasanaeth milwrol' yn y 'Royal Artillery' yn 1943. Yn ystod y cyfnod hwnnw bu'n orweddog mewn ysbyty milwrol yn dioddef o'r dicáu cyn cael ei ryddhau yn gant y cant anabl. Dychwelodd i'r coleg a graddio mewn Saesneg ac ennill Diploma mewn Diwinyddiaeth yn 1950.

Cafodd swydd gan yr Urdd yn Aberystwyth a bu'n golygu'r cylchgrawn misol *Cymru'r Plant* a hefyd y cyhoeddiad ysgafn *Blodau'r Ffair.* Bu'r dudalen 'O'r Cwtsh Dan Stâr' i blant gan Aneurin mor boblogaidd yn y cylchgrawn hwnnw. Yn ei gyfnod gyda'r Urdd bu ei gyfraniad yng Ngwersylloedd Llangrannog a Glanllyn ac yn oes aur Pantyfedwen yn un arbennig, yn ogystal â'i weithgarwch diflino gydag Aelwyd Aberystwyth yn Heol Llanbadarn. Disgrifiwyd ef. 'fel person nodedig ar staff yr Urdd, yn codi hwyl iach a'i afiaith yn heintus a'i ymroddiad yn llwyr.' Dewiswyd ef i gynrychioli Cymru yng Nghynhadledd Cristnogion Ifanc y Byd yn Nhravancore, India.



Yn 1954 dilynodd Gwrs Addysg ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth a bu'n athro am chwe blynedd mewn ysgolion yn Sir Aberteifi. Dyma'r

cyfnod y bu'n cyfansoddi ar gyfer plant ei ddosbarth a phlant Cymru gyfan. Cyfansoddodd nifer helaeth o ganeuon ysgafn a chaneuon digrif i amrywiaeth o alawon poblogaidd a rhai swynol o wledydd eraill.

Yna, am ugain mlynedd olaf ei oes bu'n ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin ac yn batrwm delfrydol i genedlaethau o fyfyrwyr, ac yn Gymro a Christion cadarn a pharod ei gymwynas bob amser i wasanaethau crefyddol, noson lawen a'r eisteddfod ac yn llenydda'n ddiwyd.

Bu'n Gadeirydd brwd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerfyrddin yn 1967 ac yn Gadeirydd Pwyllgor Llên y Genedlaethol yn 1974. Gwnaed yn Aelod o Orsedd y Beirdd yn 1976 a'i urddo yn Offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru. Roedd hyn yn gyflawnder ei ddyheadau a phenllanw ei ymrwymiad Cristnogol. Ysgrifennodd nifer o emynau i blant ac oedolion, ac yn eu plith y geiriau Cymraeg 'Mor Fawr yw'r Iôr' i 'How Great Thou Art'.

Yn 1973 cyhoeddwyd ei gyfrol nodedig *Rhigymau a Chwaraeon* gan y Mudiad Meithrin ac yna *Wythnos o Hwyl* yn 1976. Ymddangosodd ei erthyglau, ei storïau a'i farddoniaeth mewn dros 400 o wahanol gyhoeddiadau ac roedd yn ogystal yn awdur casgliad helaeth o lyfrau plant.

Cofiwn am Aneurin a'i wraig Nona a'r plant Sarah a Daniel yn byw yn Mrynglas, Heol Capel Dewi, Llangynnwr. Mae Daniel yn flaenllaw gyda Chyngor Cenedlaethol Adaryddol Cymru (RSPB) ac i'w glywed yn aml ar Radio Cymru.

Bu farw Aneurin yn 1981 ac yntau ond yn 56 mlwydd oed. Yn Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr Pont Steffan yn 1984 cyflwynwyd rhaglen deyrnged iddo yn Theatr y Maes gan HTV Cymru gyda'r teitl *Clywed y Clywedogau* o waith Norah Isaac. Darlledwyd y rhaglen ar y teledu wedyn.




Claddwyd Aneurin ym mynwent Eglwys Llangynnwr, a chredwn mai T Gwynn Jones, Caerfyrddin yw awdur yr englyn coffa hwn iddo:

Cefnodd cyn dyfod cyfnos – aeth ymhell,
Hiraeth mawr sy’n aros.
Hogyn a ddaeth yn agos
Oedd Aneurin Jenkins-Jones.

***COFIWN*** eleni am berson arbennig iawn a gyflawnodd gymaint yn ystod ei fywyd i’r pethau gorau sy’n perthyn i ni fel cenedl.

**Mae’n diolch yn fawr iawn i Peter am ymchwilio mor drwyadl i fywyd a gwaith Aneurin Jenkins-Jones ar ein rhan a hithau’n flwyddyn canmlwyddiant ei eni. Mae nifer o garolau gan Aneurin Jenkins-Jones yn Carolau Nadolig i Blant - Awn i Fethlem (Gwasg Pantycelyn), rhai ohonynt yn drosiadau. Dyfynnwyd pennill un o’r trosiadau hyn ar y tudalen blaen ac isod cyflwynwn y garol yn llawn er clod iddo:**

**Wrth y preseb gan foliannu**
**Bu’r bugeiliaid gynt yn canu;**
**Pan ddaeth Baban i ddiddanu**
**Pawb o blant y byd i gyd.**

**Wrth y preseb rhoes y doethion**
**Aur a thus a myrr yn rhoddion;**
**Heddiw derbyn Di anrhegion**
**Pawb o blant y byd i gyd.**

**Wrth y preseb plygwn ninnau**
**O dan wawl y seren olau;**
**Gwrando Iesu ar weddïau**
**Pawb o blant yn byd i gyd.**





**PANED A SGWRS**
**Gwesty’r Llwyn Iorwg**
**DYDD MERCHER, 4 CHWEFROR 2026**
**Paned a Sgwrs a Myfyrdod Byr**
**am 10.30**
**Croeso cynnes i bawb**



# CWIS Y DIARHEBION CYMRAEG

## Mae pob dihareb yn dechrau gyda'r llythyren 'O'

Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu beth yw'r gair coll!
Pob lwc!!

| | |
|---|---|
| 1 | O bob trwm, trymaf --- |
| | |
| 2 | O ddau ddrwg, gorau'r --- |
| | |
| 3 | O gyfoeth y daw --- |
| | |
| 4 | O ychydig y daw --- |
| | |
| 5 | Ofnus pob --- |
| | |
| 6 | Offeren pawb yn ei --- |
| | |
| 7 | Oni byddi gryf, bydd --- |
| | |
| 8 | Oni fentrir, ni --- |
| | |
| 9 | Os caiff y Sais lathaid, fe gymer --- |
| | |
| 10 | Os wyt gryf, bydd --- |

Atebion ar Dudalen 15

**NADOLIG OSIAN HUW WILLIAMS**




**Sut ydych hi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?**

***'Da ni wastad wedi bod yn agos fel teulu, felly mae diwrnod Nadolig yn cynnwys pawb hefo'i gilydd yn ein cartref. Symudodd fy chwaer Branwen i'n cartref rhyw ddwy flynedd yn ôl hefo'i gŵr Cynon, a'u dau o hogie bach. Felly yno fydda i, fy mrawd Meilir, fy Mam a'r tro yma mi fydd trydydd plentyn bach gan fod Branwen yn disgwyl plentyn rhyw bythefnos cyn y Nadolig! Yn y blynyddoedd diwetha' mi rydw i, Bran a Mei wedi bod yn gyfrifol am y cinio, ond yn amlwg mi fydd Bran allan ohoni 'leni, felly mi fydd pob dim yn fy nwylo i, Mei a Cynon! Dim pwysau!***

***Mae yna wastad drefn ar y diwrnod; agor presantau bach yn y bore (neu sach Siôn Corn ers talwm), mynd i'r capel am 10 o'r gloch am wasanaeth byr, nôl i goginio a bwyta'r cinio, agor gweddill y presantau, pawb yna'n gorwedd ar ba bynnag soffa sydd agosa' a chysgu, yna drws nesa erbyn y nos i chwarae gemau bwrdd hefo'n cymdogion a ffrindiau oes. Nefoedd!***

***Ers i'r hogie bach ddod i'r byd mae'r Nadolig yn gyffrous unwaith eto i ni fel teulu, sydd yn hynod o braf. A dydyn ni fel oedolion ddim yn gwario ar bresantau i'n gilydd - a dweud y gwir, mae pawb yn cyfrannu at y bwyd a'r diod ac mae hyn yn llawer llai o boendod a gwastraff i bawb. Dim ond teulu sydd ei angen!***

**Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?**

**Cwrs Cyntaf**
***Paté Siân Felindre ar gracyr x50. Mae Siân yn byw yn y pentref ac yn creu'r paté cartref gorau erioed i mi ei flasu! Ma' werth trip i chi i Lanuwchllyn pob 'Dolig i nôl hwn!***

**Ail Gwrs**
***Twrci a phob llysieuyn posib o'i amgylch. Pob dim wedi'w goginio yn y ffordd draddodiadol a dim gormod o ffriliau.***

***Trydydd Cwrs***
***Pwdin Nadolig Nain Sali (sydd ddim hefo ni bellach) o Amlwch a saws gwyn. Ond yn aml iawn mi roedd ei saws gwyn hi yn cynnwys llawer gormod o 'frandi'!***

***Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?***



***Fy ngitâr trydan cyntaf pan o'n i tua 10 oed. Mi roedd Dad o hyd yn prynu pethau o safon i ni. Nid fod y pethau yn ddrud o gwbl ond mi roedd o a Mam o hyd yn edrych yn y papur newydd 'Quids In' am fargeinion ac o'r fan yna y ces i'n gitâr cyntaf, ac mae e'n dal i gael ei defnyddio hyd heddiw.***

***Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?***

***Ganol Gaeaf Noethlwm. Dydw i byth yn gallu egluro yn iawn pam fy mod i'n hoffi darn fel hwn o gerddoriaeth, ond mae' n rhaid fod yr alaw a'r cordiau yma yn 'un o rheini' sydd yn cydio yndda i ac yn aml yn gwneud i mi gael croen gŵydd.***

## ATEBION Y CWIS

## Mis Rhagfyr

| CWIS Y DIARHEBION - ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | henaint | 6 | galon |
| 2 | lleiaf | 7 | gyfrwys |
| 3 | gofid | 8 | cheir |
| 4 | llawer | 9 | filltir |
| 5 | euog | 10 | drugarog |

## CHWIORYDD ELIM



Tweli Griffiths oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod diweddaraf Cymdeithas Chwiorydd Elim.

Cawsom brynhawn hynod o ddiddorol yn ei gwmni yn gwrando ar nifer o'i brofiadau a oedd yn gysylltiedig â 'maddeuant'. Bu'n teithio'r byd fel gohebydd i ITV a chlywir ei lais o hyd yn aml ar Radio Cymru yn adolygu'r papurau.

Mae Tweli hefyd yn ymddiddori mewn hud a lledrith a chawsom ein rhyfeddu gyda'i ddawn consurio drwy driciau difyr iawn!

Mwynhawyd paned a danteithion wedi'r cyflwyniad a chyfle i gymdeithasu.



Diolch i Alun Lenny, Cynghorydd ac Arweinydd Eglwys Bwlch-y-corn am ein tywys o gwmpas Eglwys San Pedr gan dynnu'n sylw at nifer o nodweddion arbennig sy'n perthyn iddi. Cafwyd prynhawn difyr dros ben. Mwynhawyd paned a theisen gyda'n gilydd wedyn yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg. Diolch hefyd i'n Gweinidog am y cyflwyno ac i Swyddogion y Gymdeithas, Olga a Rhian, am y trefniadau.







**CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN**

**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**

**EGLWYS GADEIRIOL DINAS LERPWL, LLOEGR**



Eglwys Gadeiriol ysblennydd Lerpwl yw’r eglwys gadeiriol fwyaf yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r gadeirlan wedi'i seilio ar ddyluniad gan y pensaer Giles Gilbert Scott (1880-1960) ac fe’i hadeiladwyd rhwng 1904 a 1978.

Mae organ fawr y Gadeirlan yn cynnwys 10,267 o bibellau, gan ei gwneud yr un fwyaf yn y Deyrnas Unedig yn ogystal ag un o'r mwyaf yn y byd.

Y Clychau Bartlett yn nhŵr yr Eglwys Gadeiriol, yw’r rhai trymaf ac uchaf yn y byd. Maent wedi’u henwi ar ôl Thomas Bartlett, y gŵr lleol a’u gadawodd i’r eglwys,

Mae'r gadeirlan yn lleoliad ar gyfer sioe sain a golau heb ei hail adeg y Nadolig, gan ddod â Stori’r Geni’n fyw i’r ymwelwyr sy’n tyrru yno o bell ac agos. Y Rhodd yw’r thema ar gyfer 2025
o 28 Tachwedd hyd 6 Rhagfyr.

## YSGOL SUL ELIM AR SUL Y COFIO



## YSGOL SUL Y PRIORDY AR WAITH




# Ifanc@Gofalaeth

## NADOLIG LLAWEN i BAWB

### Calendr Adfent Go chwith!

Ymunwch â mi i greu calendr Adfent go chwith eleni!
Gosodwch eitem o fwyd sych neu offer hylendid personol o'ch dewis chi mewn flwch bob dydd o 1 Rhagfyr hyd at ddydd Nadolig ac fe fydd gennych hamper hyfyrd i'w gyflwyno i'r banc bwyd erbyn y flwyddyn newydd. Dyma ganllaw, ond mae croeso i chi ddilyn patrwm eich hunan. Os ydych yn creu un, danfowch lun ataf pan fydd yn llawn.




### Jôcs Nadolig Beti-Wyn

Beth sy'n ddu, gwyn, a gyda trwyn sy'n sgleinio'n goch?

*Mŵ*-dolff!



Pa greadur sy'n hoffi cystadlu yn yr Elf-steddfod?

Y *côr*-ach

**STORI'R NADOLIG CYNTAF**

Felly gan fod Joseff yn perthyn i deulu'r Brenin Dafydd, gadawodd Nasareth yn Galilea, a mynd i gofrestru yn Jwdea – yn Bethlehem, hynny ydy tref Dafydd.
Aeth yno gyda Mair oedd yn mynd i fod yn wraig iddo, ac a oedd erbyn hynny'n disgwyl babi.
Tra oedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael ei eni, a dyna lle cafodd ei phlentyn cyntaf ei eni – bachgen bach. Dyma hi'n lapio cadachau geni yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid. Doedd dim lle iddyn nhw yn yr ystafell westai.


LUC 2:1-7 BEIBL.BET

### Gwasanaethau Nadolig yr Ysgolion Sul

Priordy: Bore Sul 14 Rhagyfr am 10.00 (parti i ddilyn)
Elim: Pnawn Sul 14 Rhagfyr am 3.00 (parti i ddilyn)



## Helpwch y bugail i ddod o hyd i'r preseb






Hwyl tan tro nesaf a Nadolig Llawen i bawb!





**Meredydd a'r dorch a osodwyd ganddo ger y senotaff ar Sul y Cofio ar ran Ysgol Sul Y Priordy**






**Plant Ysgol Sul Elim yn derbyn anrheg yr un o Wlad Thai gan ein Gweinidog**



# Y CALENDR ADFENT

**Mae Cristnogaeth yn canolbwyntio ar fywyd a dysgeidiaeth Iesu Grist, mab Duw.  Mae'r Nadolig yn dathlu geni Iesu - felly mae cyfnod yr Adfent yn atgoffa Cristnogion i gofio a pharatoi ar gyfer y dathlu hwn.**




**Mae'r Adfent yn cyfeirio at y cyfnod o bedair wythnos sy'n arwain at y Nadolig. Mae'n dechrau ar y Sul agosaf at 30 Tachwedd (Dydd Sant Andras) ac yn dod i ben ar 24 Rhagfyr. Mae'n adeg o ddisgwyl a pharatoi ar gyfer dathlu genedigaeth Iesu Grist ar Ddydd Nadolig. Un ffordd arbennig o gyfrif i lawr y dyddiau tan y Nadolig yw drwy ddilyn y Calendr Adfent.**

**Dechreuodd y Calendr Adfent yn yr Almaen yn y 19eg ganrif, ble roedd teuluoedd Cristnogol yn darganfod ffyrdd syml o nodi diwrnodau Adfent. Roedd rhai'n gosod marciau sialc ar wal neu ddrws, eraill yn cynnau cannwyll neu'n arddangos delweddau defosiynol bach.**



**Caiff y calendr adfent argraffedig cyntaf ei briodoli i Gerhard Lang (1881-1974), argraffydd ym Munich yn yr Almaen. Cafodd ei ysbrydoli gan galendr wedi'i wneud â llaw y creodd ei fam iddo. Cynhyrchodd Lang y Calendr Adfent ym mlynyddoedd cynnar y 1900au. Roedd y calendr cynnar yn cynnwys 24 drws bach, pob un yn cuddio llun lliwgar neu adnod o'r Beibl.**

**Erbyn y 1950au, roedd y Calendr Adfent wedi esblygu i gynnwys siocledi y tu ôl i'r drysau, gan ei wneud yn fwy deniadol, yn enwedig i blant.  Bu'r tueddiad hwn yn gyfrwng i'r Calendr Adfent ennill ei blwyf fel un o draddodiadau mwyaf annwyl y Nadolig.**

Erbyn heddiw, mae'r Calendr Adfent ar gael mewn amrywiaeth anferthol o ffyrdd – o ddyluniadau papur syml i fersiynau ffabrig neu bren manwl, yn aml yn llawn danteithion neu anrhegion bach. Dechreuodd y Calendr Adfent Digidol ledaenu gyda dyfodiad y rhyngrwyd yn ystod y 2000au. Yn wir, mae yna Galendr Adfent at ddant pawb bellach!


Yn wreiddiol, roedd pwyslais y Calendr Adfent ar agwedd ysbrydol y Nadolig, gan annog cyfnod o baratoi a myfyrio trwy'r wythnosau cyn dathlu genedigaeth Crist. Mae'r Calendr Adfent gyda thema grefyddol yn parhau i fod yn boblogaidd ymysg y rhai sy'n parhau i ddathlu pwysigrwydd crefyddol y Nadolig.



Mae hefyd lawer o bobl nad ydynt yn Gristnogion yn edrych ymlaen at y Nadolig trwy gyfrwng Calendr Adfent ond efallai nad oes i'r arfer yn eu hachos hwy yr un pwysigrwydd Cristnogol.

Rydym yn ffodus bod gennym ni yn yr Ofalaeth Galedr Adfent Digidol – diolch i ymdrechion Ieuan ac Angharad Wyn (P) a phawb sydd wedi cyfrannu at y Calendr. Cofiwch droi ato o ddydd i ddydd. Fe welwch y manylion ar glawr cefn y Papur hwn.

## CYFROL DDIWEDDARAF MENNA ELFYN (P)

<table>
<tr>
<td><br>Hydref 2025<br>Bloodaxe Books Ltd<br>£12.50</td>
<td>PARCH<br>Menna Elfyn<br><br>Mae Menna Elfyn yn fardd Cymraeg adnabyddus dros ben, gyda llawer o'i gweithiau wedi'i gyfeithu i'r Saesneg ac ieithoedd eraill gan feirdd ar draws y byd. Yn y llyfr hwn, mae hi wedi ysgrifennu llawer o'r cerddi'n uniongyrchol i'r Saesneg, ac wedi cyfieithu rhai ohonyn nhw ei hun.</td>
</tr>
</table>

**NADOLIG ARWYN JONES**



**Sut ydych hi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?**

Pawb draw i'n tŷ ni!! Mi rydan ni wrth ein boddau, fel teulu, yn croesawu pobl draw i'n ty ni ddydd Nadolig. Eleni, mae fy rhieni a fy chwaer yn dod i lawr o Wrecsam I aros gyda ni, felly mi fydd hi fel ffair acw, sydd yn union fel dyle hi fod.

Fi sy'n coginio, felly bydd Mam yn fy helpu yn y gegin, LOT o gerddoriaeth wrth baratoi'r bwyd ac yna ymlacio o flaen y tân drwy'r prynhawn yn gwylio'r plant yn chwarae gyda'u teganau.

**Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?**

**Cwrs Cyntaf**

*Eog wedi ei fygu*

**Ail Gwrs**

*Twrci a ham fel cig. Y "trimmings" i gyd. Ac mae Hedd, fy mab, wrth ei fodd gyda phwdin swydd Efrog, felly mi rydan ni'n cael "yorkies" hefyd*!!

**Trydydd Cwrs**

*Os oes lle, pwdin Nadolig gyda saws brandi.*



**Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?**

*Mi ges i focs llawn offer pysgota yn 10 oed. A finnau yn gwirioni ar bysgota, dyna oedd yr anrheg gorau erioed, ac mae llawer o'r tacl gen i hyd heddiw!*

**Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?**

*Ganol Gaeaf Noethlwm. Mae'r cyfuniad o'r geiriau a'r gerddoriaeth yn rhoi naws mor Nadoligaidd, Gaeafol. Perffaith!*

## STAMPIAU NADOLIG 2025




**Mae'r pum stamp yn dangos golygfeydd o'r Geni ac wedi'u darlunio gan Paula Doherty.**

**Maent yn cynnwys Angel, Mair a Joseff, Mair gyda'r Baban Iesu, y Bugeiliaid a'r Tri Doeth.**

**Cofiwch ofyn amdanynt!**



# NADOLIG LLEUWEN STEFFAN



**Sut ydych hi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?**

***Fel arfer, mor syml a chartrefol â phosib. Amser teuluol ydi'r Nadolig i ni a'r un drefn a defod yn digwydd fwy neu lai bob blwyddyn ers oedd y plant yn fach. Yma yn Llydaw, mae'n arferol i bobl gael eu pryd Nadolig a'u hanrhegion ar Noswyl Nadolig yn hytrach nag ar ddydd Nadolig, ond gan ein bod ni'n deulu lobsgows o Gymru a Llydaw rydym yn dueddol o gymysgu'r traddodiadau i'n siwtio ni. Dipyn o fwyd môr ar Noswyl Nadolig felly a daw eu tad a'u brawd i'n tŷ ni o Noswyl Nadolig ymlaen. Rydym yn cael pryd mwy traddodiadol Cymreig y diwrnod canlynol, ond nid gyda twrci ond gyda rhywbeth llysieuol.***
***Mae diwrnod 'Dolig yn dechrau gyda'r plant yn deffro'n llawer rhy gynnar a gofyn "gawn ni fynd i lawr grisia rwan?!" a finna'n deud "dim eto!" tan imi roi fy nghaniatâd tua 6yb! Da ni'n agor ein hanrhegion i gyfeiliant carolau a chaneuon Nadolig ar hen recordiau finyl a dw i'n eu hannog i agor eu hanrhegion yn arafach. Ar noswyl Nadolig bob blwyddyn, dw i'n poeni bod Siôn Corn heb gael digon iddyn nhw, ac y byddna nhw'n siomedig ond tydyn nhw byth yn siomedig gyda'u hanrhegion a dw i byth yn cofio hynny. Maen nhw wastad yn hapus ac yn ddiolchgar ar fore 'Dolig a finna'n teimlo'n ffodus iawn i fedru cael anrhegion i fy mhlant.***

**Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?**

**Cwrs Cyntaf**

***Salad gydag afocado ac olew sesame, hadau, halen a phupur a digon o nionyn. Dw i'n hoff iawn o nionyn amrwd, a ma'n dda iawn i'r llais!***

**Ail Gwrs**

***Llwyth o wahanol lysiau o bob math (yn enwedig panas wedi eu rhostio!) efo cnau rhost a'r cyfan wedi eu socian mewn grefi llysieuol.***

**Trydydd Cwrs**

***Cacen Dolig. Fy hoff ran ydi'r marsipan.***

**Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?**

***Dw i'n cofio sawl Nadolig hapus yn Rhiwlas efo fy rhieni a fy mrawd a fy chwaer. Roedd fy mam a fy nhad wastad yn mynd i ymdrech i wneud popeth yn hudol i ni blant. Roedd yn adeg mor hyfryd o'r flwyddyn, a'r dirgelwch yn llenwi ein dychymyg a'n hewyllys da. Mae gen i un atgof o anrheg arbennig iawn. Un flwyddyn, ces i fwrdd du er mwyn imi allu chwarae bod yn athrawes. Pan rwygais y papur lapio oddi ar y bwrdd du, roedd neges mewn sialc arno . . . neges gan y dyn ei hun - Siôn Corn! Rhaid fy mod i wedi bod yn ifanc iawn oherwydd dw i'n cofio trio darllen y neges, un llythyren ar y tro yn araf bach ....***

***"Mae rhywbeth yn yr ardd."***

***Rhedais allan ar unwaith a dyna lle roedd siglen yn yr ardd! Na'i fyth anghofio'r cyffro a deimlais! Dim ond mewn parc chwarae roeddwn wedi gweld siglen o'r blaen! Am deimlad braf oedd cael un i mi fy hun! Roeddwn yn teimlo'n lwcus ac arbennig. Yr holl roeddwn i am ei wneud ar y dydd Nadolig hwnnw oedd siglo ar y siglen. Dw i'n cofio Mam yn trio fy nghael i ddod nôl i'r tŷ. Mae'n siŵr fy mod i'n oer iawn ar ôl awr neu ddwy ar y siglen a hithau yng nghanol y gaeaf a finna yn fy mhyjamas!***



***Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?***

***Rwy'n hoff iawn o garolau plygain a llawer o garolau Cymraeg ac anodd iawn dewis un ond mae Hwiangerdd Mair yn anghyffredin o swynol yn fy marn i. Mae'r alaw yn anghyffredin a geiriau hyfryd Nantlais yn gwneud inni edrych ar stori'n geni o safbwynt Mair y fam. Er ei bod yn "gwasgu gwaredwr y byd at ei bron" yn y pendraw, ei babi bach sydd yna a'r "cwsg, cwsg f'anwylyd bach" yn dod â stori'r geni yn fyw iawn ac agosach at ein profiadau personol o famau yn gofalu a chanu hwiangerddi. Mae'r garol fodern Alaw Mair gan Cefin Roberts a Delwyn Siôn yn dilyn yr un trywydd a dw i'n meddwl bod y garol hon wedi cael ei hysbrydoli gan Hwiangerdd Mair. Mae'n cychwyn gyda'r geiriau "s'gwn i pa gân oedd Mair yn suo i'r baban gwyn pan oedd o'n crîo?" cyn mynd mlaen i "sut oedd mesur y loes wrth weled y baban a'r groes?" Dirdynol.***



## DA IAWN ETHAN!




**Bu Ethan (P) yn cystadlu gyda charfan Karate Wado-Kai Cymru yn y Bencampwriaeth Ewropeaidd yn Liege yng Ngwlad Belg dros hanner tymor. Enillodd fedal arian yno.**



**IS -LYWYDD NEWYDD**

**Llongyfarchiadau mawr i Brian Walters (E) ar gael ei ethol yn is-gadeirydd Cyfundeb Eglwysi Annibynnol Gorllewin Caerfyrddin.**

**Pob dymuniad da iddo yn y swydd.**

## Cyfraniadau Heol Awst i'r Banc Bwyd




**Bydd Joanna Page yn cyflwyno cyfres newydd ar BBC Cymru, sef Shift the Thrift sy'n golygu ymweld â gwahanol siopau elusen. Bu'n ffilmio yn y Siop Elusen i Ymchwil Cancr yng Nghaerfyrddin ble mae Ffion Vickeridge (P) yn gweithio!**



## DIOLCH I'N GWESTEION ARBENNIG

**Arwyn Jones**

**Arwyn Jones yw Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Senedd Cymru. Cyn hynny bu'n Ohebydd Gwleidyddol gyda BBC Cymru yn dilyn gweithio mewn nifer o uwch-swyddi newyddiadurol. Roedd yn un o arweinyddion llwyfan Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Wrecsam 2025 – ei dref enedigol. Mae'n briod a chanddo ddau o blant ac yn byw ym mhentref Pentyrch, ger Caerdydd.**

**Lleuwen Steffan**

**Cantores a chyfansoddwraig yw Lleuwen. Mae'n perfformio yn Gymraeg a Llydaweg ac yn byw yn Llydaw.**
**Mae Lleuwen yn ferch i'r canwr Steve Eaves ac yn chwaer i'r awdures Manon Steffan Ros. Llwyddodd i ddal dychymyg ein cenedl gyda'i thaith 'Emynau Coll y Werin' ledled ein gwlad.**

**Osian Huw Williams**

**Mae Osian Huw Williams yn gerddor a chyfansoddwr. Fe yw prif leisydd y grŵp Candelas. Bu'n gyfrifol am gerddoriaeth Y Stand, sioe a berfformiwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Wrecsam 2025. Daw o Lanuwchllyn ym Meirionnydd. Mae'n fab i'r diweddar Derek Williams, un o sylfaenwyr Cwmni Theatr Maldwyn.**

**Gwerthfawrogwn fod Arwyn, Lleuwen ac Osian yng nghanol eu prysurdeb wedi rhoi o'u hamser i'n helpu a dymunwn yn dda iddynt dros y Nadolig.**

**Theatre y Lyric, Caerfyrddin**

**PEDAIR**

**Nos Iau 5 Chwefror 2026**

**Tocynnau: £15.50 hyd at 1 Rhagfyr**
**£17.50 wedi hynny!**



**EIN cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Helen Jones (HA), Nansi John (HA), Mair Loader (HA), Jeff Thomas (HA), Fiona Elias (P) a Sulwyn Thomas (P). Cofion annwyl atoch i gyd.**

**Bu Brian Walters (E), Cadeirydd Pwyllgor Llaeth Undeb Amaethwyr Cymru (UAC), ac un sy'n godro rhwng 200-300 o wartheg yn Ffynnon-ddrain, ar Newyddion S4C, yn trafod fel y mae ffermwyr llaeth yn wynebu cyfnod cythryblus o ganlyniad i brisiau llaeth isel.**



**Bu Elinor Wyn Reynolds (P) yn dewis rhywle sy'n bwysig iddi yn Mae Yna Le ar Raglen Heledd Cynwal ar Radio Cymru. A'r lle hwnnw? Wel, Y Rhondda – Yn benodol Treorchi a'r Fynwent yn y fan honno a hynny am resymau teuluol. Bu Beti-Wyn hefyd ar Raglen Heledd Cynwal yn sôn am yr hyn a'i harweiniodd i'r Weinidogaeth, a'i swyddogaeth fel Arwyddfardd ymysg pethau eraill.**

**Bu Dechrau Canu Dechrau Canmol ar S4C yn dathlu 50 mlynedd ers cyhoeddi trosiad cyfoes o'r Testament Newydd Ymysg y cyfranwyr roedd ein Gweinidog a fu'n trafod ei chyfrol Hoff Adnodau'r Cymry. Gwelwyd nifer o olygfeydd o'r cyfarfod lansio yn Festri Heol Awst a llawer o aelodau'r Ofalaeth!**

**Cofiwch droi at Bodlediad ein Gofalaeth i glywed cyfweliad y tro hwn rhwng Delme Thomas, un o ffyddloniaid Bancyfelin a Sulwyn Thomas (P) – eitem hynod o ddifyr!**

**Bu Gareth Jones (P) ar Newyddion S4C yn sôn am hynt a helynt Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe yn dilyn diswyddo'r rheolwr, Alan Sheehan ac unwaith eto wedi penodi'r rheolwr newydd, Vitor Matos.**

Bydd y rhai ohonoch sy'n dilyn y Noson Lawen ar S4C wedi gweld Peter Hughes Griffiths (P), mewn lifrai hynod o drawiadol, ar Aur y Noson Lawen yn adrodd stori ddigrif!

Llongyfarchiadau i Nel a Noa (P) sy'n rhan o Dîm Overhang Caerfyrddin ar wneud yn dda mewn cystadleduaeth ddringo'n ddiweddar. Mae'n golygu bod Nel yn cael ei gosod yn bedwerydd yn ei grŵp oedran a Noa yn bumed yn ei grŵp oedran yntau ar lefel genedlaethol. Dalied ati!

Da gweld ein pobl ifainc yn cael llwyddiant mewn cystadlaethau Siarad Cyhoeddus Saesneg a drefnir gan Ffermwyr Ifainc Sir Gâr. Daeth Tîm Pen-y-bont y mae Lucy (P) yn aelod ohono yn ail yn yr Adran Hŷn a Thîm Capel Arthne y mae Anna (P) yn aelod ohono yn gyntaf yn yr Adran Iau sy'n golygu y bydd mynd mynd ymlaen i gystadlu ar lefel genedlaethol.

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Rhagfyr i'n
Gweinidog neu Alun Charles

**CYDYMDEIMLAD**

†

**Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â nifer o deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:**


**Elin a Sara James (P) ar farwolaeth eu tad-cu, Wynne James, Y Barri.**

**Wynne S Jones (HA) a Rhian wedi colli chwaer-yng-nghyfraith. Mrs Edna Jones, yn Sutton, Swydd Surrey.**

**Dennis a Rhian Jones (P) ar golli cyfnither Dennis, Y Parchedig Glenys Jones, Pwllheli.**

**Cofiwn amdanoch i gyd yn eich galar a'ch hiraeth.**





*BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS*
*Y PRIORDY*
*Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da*

**Y DDIWEDDAR MAUREEN RICHARDS**

Gyda thristwch y clywsom am golli Mrs Maureen Richards, Brynderwen, aelod yn Heol Awst a fu farw ar 18 Hydref yn Ysbyty Glangwili.



Yn enedigol o Cross Hands ac yn un o dair chwaer, a'u tad yn rheolwr yn y gwaith glo, roedd Maureen yn falch iawn o'i gwreiddiau yng Nghwm Gwendraeth.

Treuliodd flynyddoedd yn gweithio yn yr adran gyfrifon gyda'r Awdurdod Iechyd, ble roedd hi'n uchel ei pharch.

Bu Maureen a'i phriod, Alun yn byw yn Llundain am gyfnod cyn symud i Gaerfyrddin a dod yn aelodau yng Nghapel Heol Awst.

Roedd Mauren yn hoffi teithio, a siopa a phob amser yn edrych ar ei gorau.

Roedd ganddi gof arbennig a diddordeb ym mhopeth, ac roedd hi wastad yn bleser bod yn ei chwmni.

A hithau'n gaeth i'w haelwyd ers sawl blwyddyn, roedd wrth ei bodd yn croesawu ymwelwyr o Gapel Heol Awst, yn darllen y papur misol o glawr i glawr a tharo i mewn i'r oedfa ddigidiol o bryd i'w gilydd.

Cofiwn am Maureen fel person annwyl, hwyliog a chyfeillgar, yn ffrind arbennig i nifer ac yn gymydog hoffus.

Estynnnwn ein cydymdeilad â Gwen a Lyn a'u teuluoedd.

Roedd ei hangladd yn gwbl breifat yn ôl ei dymuniad.

**Ein Gweinidog**

**Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin**

# Oedfaon Nadolig 2025

**7 Rhagfyr**
Oedfa Adfent dan olau cannwyll yn Y Priordy
gyda'r bobl Ifanc am 5.00

**14 Rhagyfr**
Oedfa Nadolig Y Priordy am 10.00
Parti i ddilyn

Oedfa Nadolig Cana am 1.00
Parti i ddilyn

Oedfa Nadolig Elim am 3.00
Parti i ddilyn

Y Blygain yn Eglwys Crist am 7.00

**21 Rhagfyr**
Oedfa Nadolig Heol Awst am 10.00
Paned a Mins Pei i ddilyn

Dathliad Nadolig Bancyfelin am 6.00
Paned a Mins Pei i ddilyn

**25 Rhagfyr -** Bore Nadolig
Oedfa Deulu Undebol yn Y Priordy am 9.00

# DYLETSWYDDAU

## ROTA YMWELWYR
## ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY

### RHAGFYR 2025

| E | Aelodau | HA | Aelodau | P | Catrin Heledd Jones Betsan James Eirlys Davies Margaret Lloyd Evans |
|---|---|---|---|---|---|

## HEOL AWST
## DYLETSWYDDAU'R SUL

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr 21 | Phil Hopley a Roy James | Ionawr 11 | Phil Hopley a Nigel George |
| Rhagfyr 28 | Nigel George a Hywel Evans | Ionawr 25 | Phil Hopley a Nigel George |

## CAPEL ELIM

### BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagfyr | 7 | Ann Walters | Ionawr | 4 | Nia Evans |
| Raghfyr | 14 | Ann Walters | Ionawr | 18 | Nia Evans |

### PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | |
|---|---|---|
| Rhagfyr | 7 | Alison Evans |
| Ionawr | 18 | Nia Evans |

## PRIORDY

### GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Rhagfyr | | Ionawr | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Dennis Jones | Huw Michael | Alun Charles | Adrian Evans |

### PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr | 7 | Bore | Catrin Mair Jones ac Alison Parsons |
| Ionawr | 4 | Bore | Alison Parsons a Ffion Parsons |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagfyr | 7 | Gill Owens | Ionawr | 4 | Alison Parsons |
| | 14 | Gill Owens | | 11 | |
| | 21 | | | 18 | Jayne Jones |
| | 28 | | | 25 | |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagfyr | 7 | Meinir Jones | Ionawr | 4 | Catrin Heledd |
| | 14 | Y Plant | | 11 | Oedfa Deulu |
| | 21 | Alun Charles<br>(HA – Undebol) | | 18 | Elis Jones<br>(E – Undebol)_ |
| | 28 | Huw Jones | | 25 | Myfanwy Jones |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr | Huw Michael | Ionawr | Carys Morgans |

## CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH

| | | | |
|---|---|---|---|
| ELIM | Bore Mercher<br>11 Chwefror 2026 | 11.00 | Y Capel |
| | | | |
| HEOL AWST | Prynhawn Mercher<br>11 Chwefror 2026 | 2.00 | Y Festri |
| | | | |
| Y PRIORDY | Nos Lun<br>9 Chwefror 2026 | 7.00 | Y Festri |

## CYFARFOD BLYNYDDOL DIACONIAID A BLAENORIAID AC YMDDIRIEDOLWYR GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN

**Nos Lun 23 Chwefror 2026 am 7 yn Festri Cana**

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
Trowch at: cyfundeb.com

# SULIADUR

| DYDDIAD | 10.00 oni noder yn wahanol | 11.30 | 3.00 | Gweler isod |
|---|---|---|---|---|
| **Rhagfyr 7** | Priordy© Gweinidog | Elim © +HA Gweinidog | | Priordy (PIP) 5.00 + E, HA |
| **Rhagfyr 14** | Priordy (Nadolig) | | Elim +HA (Nadolig) | Y Blygain 7.30 |
| **Rhagfyr 21** | Heol Awst © (Nadolig) Oedfa i E, HA a P Gweinidog | | | Bancyfelin i'r Ofalaeth gyfan 6.00 Gweinidog |
| **Rhagfyr 25** -Bore Nadolig | Priordy i'r Ofalaeth gyfan 9.00 Gweinidog | | | |
| **Rhagfyr 28** | Heol Awst Oedfa i E, HA a P Gweinidog | | | |
| **Ionawr 4** | Priordy (+ Cana a Bancyfelin) © Gweinidog | Elim + HA © Gweinidog | | |
| **Ionawr 11** | Priordy – *OD* Gweinidog | | Heol Awst + E © Gweinidog | |
| **Ionawr 18** | Elim (i E, HA & P) Aled Edwards | | | |
| **Ionawr 25** | Priordy Gweinidog | | Heol Awst + E Gweinidog | |



**OEDFA UNDEBOL 4 IONAWR 2026**

**YN Y PRIORDY**

**Bydd yr Oedfa yng ngofal**

**Trefina Jones a**

**Chyfeillion Bancyfelin**

**AMSERLEN YR YSGOL SUL**
**RHAGFYR 2025/ IONAWR 2026**



**Elim**
**4 Ionawr – Dim Ysgol Sul**
**11 Ionawr – Ysgol Sul**
**18 Ionawr – Ysgol Sul**
**25 Ionawr – Ysgol Sul**


**Y Priordy**
**4 Ionawr – Dim Ysgol Sul**
**11 Ionawr – Oedfa Deulu**
**18 Ionawr – Ysgol Sul**
**25 Ionawr – Ysgol Sul**





**DIOLCH YN FAWR**

**Diolch i Beti-Wyn, Meleri Llwyd O'Leary, Alison Parsons, Jayne Woods ac Athrawon yr Ysgolion Sul am y lluniau'r mis hwn.**




**Sebra**
**Tachwedd 2025**
**£24.99**

**STORI'R IAITH**

**Gol. Ceri Wyn Jones**

***Cyfrol ddeniadol llawn lluniau sy'n adrodd Stori'r Iaith Gymraeg o'i dechreuadau hyd heddiw yng nghwmni academyddion a wynebau cyfarwydd.***

**Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org**


Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin
Ymunwch â ni ar gyfer ein
CALENDR ADFENT DIGIDOL
1 - 25 Rhagfyr 2025
Pob dydd dros
Youtube a Facebook
Cofiwch alw mewn!


WYTHNOS WEDDI AM UNDOD CRISTNOGOL 2026
WEEK OF PRAYER FOR CHRISTIAN UNITY 2026
EGLWYSI YNGHYD 'AM BANED'
YNG NGHAERFYRDDIN
CHURCHES 'COFFEE' TOGETHER
IN CARMARTHEN
Mercher, 21 Ionawr 2026
Wednesday, 21 January 2026
10.30-11.30
CAFFI BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH, HEOL AWST
SALVATION ARMY COFFEE SHOP, LAMMAS STREET